

# Tân gwyllt mewn siopau: Rhestr wirio asesiad risg i fanwerthwyr



## Sut allai tân gynnau?

Perygl	Cam Gweithredu	Eich camau gweithredu a'ch nodiadau (cofnodwch yma unrhyw gamau gweithredu penodol y mae angen i chi	Camau a gymerwyd	Sylwadau
Sigarêts a fflamau noeth eraill.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfyngwch ar fynediad at ardaloedd storio tân gwyllt.</li> <li>Sicrhewch nad yw tân gwyllt yn cael ei adael yn y warws heb ei oruchwylio.</li> <li>Gwaharddwch ysmegu yn agos at yr eitemau.</li> <li>Cadwch nhw dan glo mewn cwpwrdd neu gwpwrdd arddangos.</li> </ul>	(e.e. 'sicrhau fod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r ardaloedd 'dim ysmegu' a gwirio fod arwyddion 'dim ysmegu' wedi'u gosod mewn lleoliadau amlwg)		<ul style="list-style-type: none"> <li>Cymryd camau positif i atal tân yw'r mesur rheoli pwysicaf y dylech ei gofio.</li> </ul>
Gwreichion o socedi a ffitiadau trydan.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datgysylltwch nhw o'r cyflenwad os ydynt wedi'u gosod mewn cypyrddau arddangos neu defnyddiwch dân gwyllt ffug.</li> <li>Mewn storfeydd, tynnwch offer trydanol allan (heblaw am ffitiadau golau ac offer synhwyro</li> </ul>			
Gwres yn gwneud i focsys fynd ar dân.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tynnwch wresogyddion neu gosodwch nhw'n ddigon pell oddi wrth y tân gwyllt.</li> <li>Mewn storfeydd, dylech adael bwllch gwag rhwng y ffitiadau golau a'r tân gwyllt.</li> </ul>			
Tân ar nwyddau eraill yn lledaenu i'r tân gwyllt.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylech eu cadw mewn storfa bwrpasol os yw hynny'n bosibl, neu fel arall mewn cwpwrdd storio neu gynhwysydd sy'n gwrthsefyll tân.</li> <li>Dylech eu cadw'n ddigon pell oddi wrth eitemau fflamadwy neu losgadwy.</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae sylweddau fflamadwy yn cynnwys gwirod gwyn a phaent toddol. Mae tapiau fideo a theits / hosannau hefyd yn hynod fflamadwy. Mae eitemau llosgadwy yn cynnwys cardbord, papur a choed (e.e. paledau).</li> </ul>
Tân bwriadol neu gamau troseddol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cadwch nhw mewn iard nwyddau ddiogel.</li> <li>Cadwch nhw dan oruchwyliaeth.</li> <li>Adolygwch leoliad y storfa a'r trefniadau diogelwch.</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>Gallai tân gael ei gynnu'n fwriadol neu gan ladron trwy ddefnyddio offer torri i gael mynediad i'r storfa.</li> </ul>

## Sut allai tân ledaenu a gwaethygu?

Perygl	Cam Gweithredu	Eich camau gweithredu a'ch nodiadau	Camau a gymerwyd	Sylwadau
<p>Gwres o dân gwyllt sy'n llosgi yn gwneud i eitemau fflamadwy neu losgadwy eraill fynd ar dân gerllaw.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Symudwch yr eitemau fflamadwy/llosgadwy os yw hynny'n bosibl.</li> <li>• Gosodwch y tân gwyllt yn ddigon pell oddi wrth sylweddau fflamadwy i leihau'r perygl o dân yn lledaenu.</li> <li>• Os yw'r tân gwyllt yn cael ei storio mewn cynhwysydd y tu allan i'r adeilad, gofalwch ei</li> </ul>			
<p>Tân gwyllt sy'n llosgi neu ddarnau yn cael eu taflu at eitemau fflamadwy neu losgadwy.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadwch y tân gwyllt yn eu bocsys cludo.</li> <li>• Caewch y bocsys cludo ar ôl eu defnyddio.</li> <li>• Cadwch y tân gwyllt mewn storfa ar wahân. Os nad yw hyn yn bosibl, cadwch nhw mewn cypyrddau sy'n gwrthsefyll tân.</li> <li>• Os yw tân gwyllt yn cael ei gadw mewn warws, gofalwch fod rhwystr rhwng y tân gwyllt ac eitemau fflamadwy (e.e. wal neu sgrin wifrog) neu caewch yr eitemau mewn cawell wifrog neu cadwch nhw mewn cynhwysydd cludo ISO neu adeilad addas arall a fydd yn gallu atal darnau a deflir.</li> <li>• Cadwch reolaeth ar faint o dân gwyllt sydd yn y siop.</li> <li>• Gofalwch fod y safle'n addas ar gyfer niferoedd y tân gwyllt (ac mewn unrhyw achos cadwch gyflenwadau tân gwyllt o fewn y cyfyngiadau a ganiateir gan eich cofrestriad neu drwydded).</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai unrhyw un sy'n storio nifer fawr o sylweddau fflamadwy gael cyngor arbenigol.</li> </ul>
<p>Tân gwyllt yn cael eu llygru gan gemegau eraill neu gan ddŵr a dod yn ansefydlog.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadwch nhw'n ddigon pell oddi wrth sylweddau costig fel glanhawyr draeniau, stripwyr paent a phaent cadwrol ar gyfer pren.</li> <li>• Cadwch nhw'n ddigon pell oddi wrth gwrteithiau a nwyddau sy'n cynnwys perocsid (e.e. caledwyr gwydr ffeibr).</li> <li>• Cadwch nhw mewn man sych.</li> </ul>			

## Sut allai pobl gael eu niweidio pe bai tân yn digwydd?

Perygl	Cam Gweithredu	Eich camau gweithredu a'ch nodiadau	Camau a gymerwyd	Sylwadau
Staff neu gwsmeriaid yn methu â dianc oherwydd gwres a/neu mŵg.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadwch bob tân gwyllt mewn cwpwrdd arddangos neu storio.</li> <li>• Gofalwch eich bod yn gosod y tân gwyllt mewn man lle na fyddai mŵg na fflamau yn effeithio ar llwybrau dianc mewn achos o dân.</li> <li>• Gofalwch nad oes unrhyw nwyddau eraill yn atal llwybrau dianc.</li> <li>• Gofalwch fod pob aelod o staff yn deall pa gamau y dylid eu cymryd os oes tân.</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y flaenoriaeth yw cael staff a chwsmeriaid allan o'r siop.</li> <li>• Dim ond pan fydd bywydau mewn perygl y dylid ceisio ymladd tân.</li> <li>• Mae gennych ddyletswydd gyfreithiol o dan Reoliadau Rhagofalon Tân (Yn Y Gwaith) 1997 i sicrhau bod unrhyw un yn y siop yn gallu dianc yn ddiogel</li> </ul>
Tân yn lledaenu i adeiladau preswyl cyfagos neu gerllaw.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gosodwch gynhwysyddion yn ddigon pell o dai cyfagos.</li> <li>• Os oes fflatiau neu lety preswyl yn yr un adeilad, gofalwch fod llwybr dianc ar wahân i breswylwyr.</li> <li>• Gosodwch system synhwyro a larwm tân.</li> <li>• Gofalwch fod drysau tân addas yn cael eu gosod ac ati.</li> </ul>			